# Gwasanaeth Theatr a Chelfyddydau CBS Caerffili

# Sefydliad y Glowyr, Coed Duon

# Pecyn Gwybodaeth Llogi Ystafell

**Llogi Sefydliad y Glowyr, Coed Duon**

Mae Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yn theatr broffesiynol sy'n cyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau adloniant a chelfyddydol.  Mae'r adeilad hanesyddol yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd brofi theatr, dawns a cherddoriaeth fyw o'r radd flaenaf ar garreg eu drws yn ogystal â chefnogi sefydliadau'r gymuned leol.  Mae'r theatr hefyd yn darparu ystod eang o weithdai a dosbarthiadau cyfranogol yn ogystal ag arddangosiadau am ddim yn yr ardal oriel gyhoeddus.

Ynghyd â bod yn theatr amlddefnydd sydd â system theatr hyblyg, mae hefyd gan Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, nifer o ystafelloedd cyfarfod cyffyrddus ac ardaloedd ymlacio, yn ogystal â bar stiwdio, ardal oriel a stiwdio ddawns. Mae Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yn lleoliad unigryw i gynnal eich digwyddiad, boed yn gynhadledd, cyfarfod, gweithdy, neu barti. Gyda staff profiadol yn barod i helpu sicrhau bod eich digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth, rydym yn gwarantu y bydd eich profiad yma yn un cofiadwy.

*Yr hyn y gallwn ei gynnig:*

- *Awditoriwm theatr fawr am hyd at 420 o ddirprwyon gyda system eistedd addasadwy sy'n caniatáu defnydd llawn o arwynebedd y llawr ar gyfer arddangosfeydd, ffeiriau masnach ac ati.*
- *Ardal bar stiwdio y gellir ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a pherfformiadau amrywiol gyda lle i hyd at 200 o ddirprwyon.*
- *Ystafelloedd cynhadledd am hyd at 15 o ddirprwyon ag arddull ystafell bwrdd*
- *Ardaloedd bar ac oriel am hyd at 50 person ar gyfer arddangosfeydd ac achlysuron*
- *Mynediad i'r rhyngrwyd diwifr ar gael ledled y Sefydliad (wedi'i ddiogelu gan gyfrinair)*
- *Ystod lawn o gyfarpar clyweledol gyda chymorth technegol ar gael*
- *Gwasanaeth arlwyo o safon uchel sy'n cynnwys te a choffi, bwffe bys a bawd anffurfiol a phrydau gwasanaeth arian a gynigir gan arlwywyr mewnol*
- *Stiwardiau a hebryngwyr proffesiynol sy'n sicrhau cysur, diogelwch a lles eich dirprwyon*
- *Cyfleusterau parcio cyfyngedig - nodwch fod mannau parcio yn gyfyngedig iawn a chânt eu dyrannu ar gais yn unig.*

## Cynadleddau a Llogi Corfforaethol

Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, yw'r lle perffaith i gynnal eich cynhadledd, gydag awditoriwm aruthrol a all groesawu hyd at 420 o ddirprwyon ac ardaloedd ymlacio sy'n addas ar gyfer gweithio'n hyblyg. Os oes angen dyfynbris y pen arnoch, cysylltwch â ni a gallwn greu dyfynbris sy'n addas i'ch anghenion.

*__Nodyn ar TAW__ Mae'n bosibl i TAW gael ei **HEITHRIO** wrth logi theatr neu **pan mai defnydd yr adeilad yw'r unig gyflenwad**, er enghraifft, ystafell heb gyfarpar na chymorth ychwanegol. Pan ddarperir gwasanaethau eraill, er enghraifft, darparu technegwyr goleuadau, gwasanaethau swyddfa docynnau, neu unrhyw cyfarpar arall ac ati, mae hyn yn golygu cyflenwad unigol o wasanaethau trethadwy a rhaid ychwanegu TAW ar y gyfradd safonol.

## **Ardaloedd i'w Llogi**

**Theatr:**



Defnydd o'r llwyfan a'r awditoriwm gyda chymorth technegol
Yn addas ar gyfer (ond heb fod yn gyfyngedig i) gynadleddau, nosweithiau gwobrwyo, dawns-ginio, partïon
*£80 yr awr (+TAW os yw'n berthnasol)* Mae llogi'r theatr yn cynnwys:

- *Prif lwyfan wedi'i chyflwyno fel bocs du*
- *Un technegydd llwyfan un pwrpas*
- *Awditoriwm â threfn seddi llawn, trefn seddi ar ei hanner neu i'w ddefnyddio fel gwagle. Mae seddi gwledda ar gael hefyd ond nodwch y bydd tâl ychwanegol am fyrddau gyda gorchudd.  Mae'r theatr yn hollol hygyrch*
- *Pedwar Ystafell newid hollol hygyrch*
- *Staff blaen y tŷ yn unol â maint y digwyddiad*
- *Rig goleuo'r llwyfan cyfan â thri lliw sylfaenol*
- *Pwynt cyswllt pwrpasol yn y Sefydliad er mwyn helpu i gynllunio'ch digwyddiad.  Rhaid llogi'r theatr am o leiaf 4 awr*

| | **Trefn seddi llawn** | **Trefn seddi ar ei hanner** |
|---|---|---|
| **Uchafswm o le** | **419** | **255** |

**Awditoriwm:**
Defnydd o'r awditoriwm yn unig heb unrhyw gymorth technegol
Yn addas ar gyfer (ond heb fod yn gyfyngedig i) dosbarthiadau, cyfarfodydd, ffeiriau masnach
*£45 yr awr (+TAW os yw'n berthnasol)*
Mae llogi'r Prif Awditoriwm yn cynnwys:

- *Yr awditoriwm fel gofod gwag gyda'r dewis o seddi y gellir eu tynnu yn ôl neu wagle. Mae seddi gwledda ar gael hefyd ond nodwch y bydd tâl ychwanegol am fyrddau gyda gorchudd.*
- *Mae'r awditoriwm yn hollol hygyrch*
- *Staff blaen y tŷ yn unol â maint y digwyddiad Seddi a byrddau wedi'u cynllunio o amgylch eich digwyddiad.*
- *Pwynt cyswllt pwrpasol yn y Sefydliad er mwyn helpu i gynllunio'ch digwyddiad.*
- *Rhaid llogi'r awditoriwm am o leiaf 1 awr*

| | **Sefyll** | **Seddi Gwledda** |
|---|---|---|
| **Uchafswm o le** | **550** | **180** |

Noder:

- Codir tâl dwbl ar gyfer llogi ar ddyddiau Sul a Gwyliau Banc
- Efallai y codir tâl ychwanegol am staff a chyfarpar ychwanegol

**Bar:**





Yn addas ar gyfer (ond heb fod yn gyfyngedig i) gweithdai, cynadleddau, cyfarfodydd
*£25 yr awr (+TAW os yw'n berthnasol)*
Mae llogi'r bar stiwdio yn cynnwys:

- *Bar wedi'i gyflwyno fel gwagle*
- *Seddi wedi'u cynllunio o amgylch natur eich digwyddiad*
- *Mae'r bar yn hollol hygyrch*
- *Staff blaen y tŷ er mwyn sicrhau bod eich digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth Pwynt cyswllt pwrpasol yn y Sefydliad er mwyn helpu i gynllunio'ch digwyddiad.*

Noder:

- Codir tâl dwbl ar gyfer llogi ar ddyddiau Sul a Gwyliau Banc Efallai y codir tâl ychwanegol am staff a chyfarpar ychwanegol.
- Nid yw'r defnydd o'r rig goleuo wedi'i gynnwys yn y pecyn hwn.

## Lle ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau, gweithdai a chyfarfodydd

| Ystafell | Cost yr awr | Nifer y Lleoedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ystafell bwrdd | Ystafell bedol | Ystafell ddosbarth | Theatr |
| Markham | £20 | 21 | 16 | 18 | 24 |
| Oakdale | £20 | 16 | 13 | 10 | 18 |
| Stiwdio Ddawns | £20 | 22 | 19 | 24 | 40 |
| Lolfa | £15 | 16 | 13 | - | 21 |

- Cymerir dosbarthiadau a gweithdai ar sail archeb am o leiaf 1 awr
- Bydd sefydliadau sy'n trefnu 4 neu fwy o weithdai, dosbarthiadau neu gyfarfodydd yn gymwys i gael gostyngiad o 15%.
- Codir tâl ychwanegol am gyfarpar ychwanegol.
- Ystafell Oakdale yw'r unrhyw le sydd ddim yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, mae pob lle arall yn hollol hygyrch.



*Stiwdio Ddawns*



*Markham (Ystafell Bwrdd)*



*Oakdale (arddull theatr)*



*Lolfa*

## Partïon

Mae ein theatr a'n Bar Isaf ar gael i'w llogi ar gyfer partïon a phartïon priodas

**Theatr:**
Mae'r prisiau ar gyfer y Theatr a'r Awditoriwm fel y gwelir uchod yn amrywio gan ddibynnu a os oes angen defnyddio'r llwyfan ai peidio.

Rydym yn argymell eich bod yn dod i weld y lle fel y gallwn drafod eich gofynion a chreu dyfynbris sy'n berthnasol i chi.

**Bar:**
*£30 yr awr (+TAW os yw'n berthnasol)* Mae llogi'r bar stiwdio yn cynnwys:

- *Bar wedi'i gyflwyno fel gwagle gydag ardal llwyfan 24x12 troedfedd wedi'i gyflwyno fel bocs du.*
- *Trefn seddi a chynllun wedi'i chynllunio o amgylch eich gofynion.*
- *Bar arian parod ar gael gyda staff wedi'u hyfforddi'n llawn*
- *1 Rheolwr ar ddyletswydd*

*Am bartïon yn y Bar Isaf, rydym yn mynnu bod 2 aelod o staff trwyddedig ar y drws yn cael eu defnyddio â thal o £28 yr awr + TAW.*

Nodwch nad yw'r defnydd o'r rig goleuo wedi'i gynnwys yn y pecyn hwn. Os oes angen defnyddio'r rig goleuo a thechnegydd yna gadwch wybod i ni a gallwn roi dyfynbris sy'n berthnasol i chi at ei gilydd.

## Llogi Gwasanaethau a chyfarpar ychwanegol

**Taflunydd digidol a sgrîn**
I'w ddefnyddio yn y Theatr (4500 lumen) - £150 + TAW
I'w ddefnyddio yn y Bar (2600 Lumen) - £50 + TAW

**Sgrîn yn unig**
I'w ddefnyddio yn y Theatr - £75 + TAW
I'w ddefnyddio yn y bar - £20 + TAW

**Siart droi**
£10 + TAW

**Meicroffonau radio**
Defnydd pen uchaf £50 + TAW (Shure)
Defnydd sylfaenol £30 + TAW (Trantec)

**Technegydd ychwanegol**
Lleiafswm o 5 awr - £12 yr awr + TAW

***Cadeiriau x 10**
£10 y dydd + TAW

***Byrddau crwn â lle i 10 person (heb orchudd)**
£10 y dydd + TAW

***Byrddau crwn â lle i 10 person (gyda gorchudd)**
£15 y dydd + TAW

***Byrddau trestl**
£10 y dydd + TAW

Os oes angen unrhyw cyfarpar arnoch nad allwch ei weld ar y rhestr, cysylltwch â ni a gallwn ddarparu rhestr cit lawn gyda'r prisiau ar gael wrth ymholi.

**Ar gael i'w llogi oddi ar y safle yn amodol ar argaeledd*

## Arlwyo

**Te a Choffi**
£1.30 y pen am y paned cyntaf
£1 y pen am bob paned dilynol

**Sudd oren**
£5.00 am jwg 1 litr *(Codir tâl ar sudd oren ar sail gwerthu neu ddychwelyd*

**Potel o win 70cl**

£15 y botel (*Codir tâl ar win ar sail gwerthu neu ddychwelyd)*
Tâl gweini £5 y botel

**Diodydd bar**
Yn unol â phrisiau'r bar

**Bisgedi**
£0.50 y pen

**Bwffe**
Bwydlenni a phrisiau ar gael ar gais

## Cysylltwch â

Os oes angen ragor o wybodaeth arnoch ynglŷn â llogi Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, neu os hoffech drefnu digwyddiad, cysylltwch â:

Sefydliad y Glowyr, Coed Duon
Y Stryd Fawr
Coed Duon
NP12 1BB 01495 224425
SefydliadyGlowyrCoedDuon@caerffili.gov.uk

www.blackwoodminersinstitute.com